

A-hoi di ho!

Ar ynys drofannol ynghanol y **moroedd mawr**, roedd yna **balas** bendigedig o'r enw **Gwêl y Môr**.



Iorwerth oedd enw perchennog y **palas**, ac roedd e'n byw ar ei ben ei hun, yn dawel bach.

Hoff wisg **Iorwerth** oedd ei **grys coch** a **smotiau gwyn** - a oedd yn gweddu'n berffaith i'w facyn sychu trwyn!

Un bore, newidiodd y gwynt - daeth **cymylau duon** i ddangos eu dannedd, a chododd y gwynt fraw ar **Iorwerth**. Roedd y **storm** waethaf erioed ar fin taro ynys ei freuddwydion.

Dringodd **Iorwerth** yr holl ffordd i frig y **palas** er mwyn gweld a oedd yna yr un arwydd o fodau dynol ar y **môr** a allai ei helpu. Weithiau roedd yna **gychod** yn mynd a dod ond doedd dim byd i'w weld heddiw. **O Nŷ!**

"O'r mawredd, beth wna' i?" meddyliodd **Iorwerth**.

Tarodd **mellten** yr ynys, a daeth y taranau allan i chwarae hefyd. Roedd **Morys y gwynt** ac **Ifan y glaw** yn eu hanterth heddiw.

Yna, gwelodd **Iorwerth fflamau** ar goeden gyfagos - **O Nŷ!**

Panig!

Yn sydyn, yng nghanol ei drybini, dyma **Iorwerth** yn gweld **cwch** enfawr yn y pellter, gyda baner ddu â phenglog arni yn chwifio'n urddasol ar bolyn gwyn.

"Ō-hoi yn fan 'na!"

GYLP!

Crynodd **Iorwerth** yn ei esgidiau. Ond cofiodd am ei **facyn coch** a **smotiau gwyn**. Twriodd yn ei boced a, diolch byth, roedd e dal mewn un darn.

Chwifiodd ei freichiau, gyda'i **facyn** yn ei law.

“HEEEELP!”

“Wŷl a-hoi di ho!” bloeddiodd môr-leidr blewog, wrth i'r **cwch** nesáu.

Roedd bol y môr-leidr yn byrstio allan o'i grys ac yn gorlifo dros ei drowsus rhacs.

Erbyn hyn, roedd **Iorwerth** yn poeni hyd yn oed yn fwy wrth weld y **fflamau'n** ehangu.

Fel arfer, y cyfan roedd **Iorwerth** eisiau oedd llonyddwch. Byddai fel arfer yn mynd i'w gragen yng nghwmni pobl eraill... Ond nid dyma'r amser am hynny!

“Paid â phoŷni dim, gymm, dy ŷnw?”

“Io-io-Iorwerth!”

Estynnodd y môr-leidr cyfeillgar am ei bibell ddŵr ac anelu am y **fflamau**. Mewn chwinciad, diflannodd y **tân**, ac roedd popeth yn dda unwaith eto.

“Oooo go dda, yyym, beth yw eich enw, Mr Môr-leidr?”

“A-hoi di ho ~ grŷdŷt ti fyth, Iorwerth bach...”

Edrychodd **Iorwerth** yn syn.

“Fy enw i yw Morwërth - fi yw'r môr-lêidr mwyaf cyfëillgar yn y
byd, ond dw i'n rhy hên bellach. Gaf i fyw ar yr ynys hon gyda ti?
Mae gin hênwau ni'n odli - ac e drych!”



Estynnodd am **facyn coch** gyda **smotiau gwyn**.

“SNAP!”

A-hoi di ho!

Ŵdurd: Magw Jên

Darlungdd: Sioned Mëdi Evans